cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

Sut mae'ch plentyn yn ymgeisio a chael ei dalu 2015/16

Mae'n bwysig ei fod yn ymgeisio cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor i wneud yn siŵr fod cyllid i fyfyrwyr yn ei le ar ddechrau'r cwrs.

Beth sydd angen i'ch plentyn ei wneud **Beth sydd angen i chi ei wneud** **Yr hyn rydym yn ei wneud**

Y ffordd gyflymaf a hawsaf i ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr yw ar-lein ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk. Gall eich plentyn ymgeisio am gyllid i fyfyrwyr cyn derbyn lle yn y brifysgol neu'r coleg. Gall ymgeisio yn defnyddio ei brif ddewis o gwrs a newid y manylion ar-lein yn hwyrach os oes angen. Gwnewch yn siŵr ei fod yn argraffu, llofnodi a dychwelyd ei ffurflen ddatganiad.

Os yw'ch plentyn yn ymgeisio am gymorth ariannol sy'n ddibynnol ar incwm eich cartref, bydd hefyd angen i chi gofrestru ar www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk a chwblhau rhan o'r cais. Os ydych chi wedi rhoi manylion i ni o'r blaen, dylech ddefnyddio'r un Cyfeirnod Cwsmer.

Byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth ariannol a roddoch i ni gyda Chyllid a Thollau EM ac efallai y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am dystiolaeth neu ragor o wybodaeth i gefnogi'r hyn a ddywedoch wrthym.

Unwaith y bydd y cais wedi ei gwblhau a'i gyflwyno, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth rydym angen, byddwn yn asesu faint all eich plentyn gael ac yn anfon llythyr Hawl i Gyllid i Fyfyrwyr ato.

Bydd yn mynd â'r llythyr Hawl i Gyllid i Fyfyrwyr i'w brifysgol neu goleg pan fydd yn cofrestru. Unwaith y bydd y brifysgol neu goleg yn rhoi gwybod i ni ei fod wedi cofrestru, byddwn yn talu ei Grant Dysgu Llywodraeth Cymru ac/neu Fenthyciad Cynhaliaeth i gyfrif banc eich plentyn mewn tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor. Rydym yn talu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'w brifysgol neu goleg.

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.

ENDORSED BY HELOA

www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ymarferwyr

facebook.com/SFWales

twitter.com/SF_Wales

youtube.com/SFWFILM

student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government